CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR LLAWN, 5ed o IONAWR 2021 - CYFARFOD RHITHIOL

Yn bresennol: Ei Deilyngdod Y Maer – Cynghorydd W.Tudor Owen (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr A.Hopcyn, D.L.Jones, K.Jones, C.Larsen, E.Lovgreen, W.R.Owen, S.Sage, M.Sarnacki, I.C.Thomas, R.Thomas, C.Williams

---

1. **Ymddiheuriadau**

Y Cynghorwyr W.L.Davies, E.R.Hughes, B.Owen, J.W.Parry, K.Richards

2. **Cyhoeddiadau'r Maer**

(1) Gwaeledd

Cyfeiriodd y Cadeirydd at waeledd y Cynghorydd W.L.Davies, a dymunodd iddo adferiad llwyr a buan.

(2) Cronfa Nadolig y Maer

Nododd y Maer mai'r bwriad oedd mynd â sieciau o amgylch sefydliadau yn y dref yn yr wythnosau nesaf.

3. **Datgan Buddiant Personol**

Y Cynghorydd I.C.Thomas – eitem 4(4).
Y Cynghorydd C.Williams – eitem 4(4).

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd / Clerc**)

(1) Archwiliad ar gyfer y Flwyddyn yn diweddu ar y 31ain o Fawrth 2020

Nododd y Clerc y derbyniwyd yr adroddiad terfynol o ran yr Archwiliad ar gyfer y Flwyddyn yn diweddu ar y 31ain o Fawrth 2020, oedd yn eithaf calonogol.

Codwyd y materion canlynol:

● **Cais am braesept** - er bod praesept wedi'i osod erbyn y dyddiad dyledus a bod cyllideb wedi'i pharatoi ni wnaeth y cyngor gofnodi, fel tystiolaeth, union swm y praesept y gofynnwyd amdano gan yr awdurdod bilio.

● **Adran 1 - Nodyn Datgelu Cronfeydd Ymddiriedolaeth** – nad oedd y Cyngor wedi ateb blwch 14 mewn camsyniad yn Adran 1 y ffurflen flynyddol. Yn seiliedig ar wybodaeth y llynedd, credir y dylai'r cyngor fod wedi rhoi ateb cadarnhaol ar gyfer y ddwy flynedd.

● **Cofnodi cymeradwyo'r ffurflen flynyddol** – nad oedd y cofnodion a ddarparwyd yn benodol yn cofnodi'r cyngor yn cymeradwyo'r Datganiadau Cyfrifo a'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol a'r atebion o'u mewn.

Bydd trafodaeth pellach ar yr adroddiad yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cyllid.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth, a llongyfarch y staff ar yr adroddiad calonogol.

(2) Band Llydan (Broadband)

Nododd y Clerc y bydd band llydan (broadband) newydd yn cael ei osod yn y swyddfa, fydd yn fantais i'r staff a'r rhai sy'n defnyddio Adeilad yr Institiwt. Fodd bynnag gallasai hyn achosi rhywfaint o drafferthion ymarferfol.

Ymunodd y Cynghorydd M. Sarnacki â'r cyfarfod am 7.00 p.m.

(3) Grant Cronfa Gylchol Adferiad Gwyrdd

Nododd y Cynghorydd C.Williams fod y cais am y grant uchod wedi bod yn llwyddiannus, a bydd mwy o fanylion i ddilyn. Bydd y prosiect yn cael ei alw yn "Caer Ail Gyfle". Bydd yn rhaid penodi Bwrdd Rheoli a gwario'r arian erbyn diwedd mis Mawrth, a'i bod yn bosib y bydd dilyniant i'r grant. Bydd peth goblygiadau ariannol ar y Cyngor a bydd y Clerc yn edrych ar pa bennawd y gellir clustnodi'r arian ohono.

Bydd y Clerc yn cysylltu efo'r holl aelodau i weld pwy fydd efo diddordeb bod yn rhan o grŵp bychan i symud pethau ymlaen yn y tymor byr.

(4) Balot HWB

Nododd y Clerc ei fod wedi derbyn e-bost gan Rheolwr Rhaglenni Adfywio Cyngor Gwynedd yn nodi fod balot yr ardaloedd gwella busnes i'w cynnal fis Mawrth. Bydd angen lleoli blwch pleidleisio rhywle yn y dref a gofynnwyd os oedd yn bosib lleoli blwch pleidleisio yn Adeilad yr Institiwt.

Cafwyd trafodaeth ar hyn, ac nid oedd gwrthwynebiad mewn egwyddor os y gellid datrys y materion iechyd a diogelwch ymarferol mewn cyfnod o bandemig.

5. Cofnodion

I gadarnhau'r cofnodion canlynol:

i. Cyngor Llawn – 26ain o Dachwedd 2020

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir.

ii. Cyngor Llawn – 1af o Ragfyr 2020

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir.

iii. Pwyllgor Cyllid – 16eg o Ragfyr 2020

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir.

6. Cyfrifon

Nodwyd fod costau llogi llungopïwr i weld yn gymharol uchel, ac hefyd costau gwneud copïau.

Nododd y Clerc fod y gontract presennol o ran y llungopïwr yn dod i ben ym mis Medi 2021.

Penderfynwyd:
(1) Derbyn a'u talu.
(2) Gofyn i'r Clerc wneud gwaith ymchwil o ran beth yn union yw gofynion y Cyngor Tref tuag at symud at ddulliau fwy modern, electronig o anfon allan rhaglen y Cyngor, fyddai'n defnyddio llai o bapur.

7. Cysoni Cyfrifon

Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth.

8. Praesept

Cyflwynwyd adroddiad gan y Clerc ar y Praesept.

Nodwyd ar y materion canlynol:

(I) Cefndir

(1) Oherwydd Covid-19, ei bod wedi bod yn anodd cynllunio'n gyllidol, ac yn anorfod mae rhai penawdau cyllidol heb gael eu gwario yn ystod 2020/21.
(2) Bod angen cyflwyno penderfyniad i Gyngor Gwynedd am y Praesept 2021/22 erbyn y 29ain o Ionawr, ac y bydd Cyngor Gwynedd yn talu'r Praesept mewn dau randaliad, sef ar ddiwrnod gwaith olaf Ebrill ac ym mis Awst.

(II) Y Gyllideb

(1) Bod y gyllideb ar gyfer 2021/22 wedi cael ei fabwysiadu yn y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar y 1af o Ragfyr, 2020.
(2) Bod y gyllideb yn cynyddu bob blwyddyn – o £309,738 yn 2020/21 i £365,538 yn 2021/22.

(III) Awdit

(1) Roedd Adroddiad yr Archwilwr Allanol ar gyfer 2018/19 wedi datgan bod fod gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn o £243,887, sy'n 107% o gyfanswm y gwariant – a bod angen i'r Cyngor roi ystyriaeth wrth gyllidebu i'r dyfodol.
(2) Yn sgîl hyn roedd y Clerc wedi trefnu cyfarfod gyda'r Archwilydd Mewnol er mwyn cael mwy o eglurder, a cafwyd gwybodaeth bod 3 math o gronfeydd:

Designated Funds

"Designated funds are those unrestricted funds which have been set aside by trustees for an essential spend or future purpose. In a sense, these funds are then 'ring-fenced' and no longer form part of your unrestricted general funds."

Restricted Funds

"A reserve of money that can only be used for specific purposes."

Unrestricted Funds

"Unrestricted funds .... may use for any purpose so long as it meets the aims and objectives of the group outlined in their governing document. Many groups tend to use unrestricted funds to go towards operating costs for the organisation or costs that are difficult to fund."

Gellir symud arian yn ôl ag ymlaen o'r rhain.

(3) Yn ei gyfarfod ar y 9fed o Fehefin roedd y Cyngor Llawn wedi rhoi caniatâd i glustnodi Cyfrifon "Designated" ar gyfer y materion canlynol:

2021/22	£20,000 – Adeilad yr Institiwt
2022/23	£20,000 – Adeilad yr Institiwt
2023/24	£20,000 – Adeilad yr Institiwt

Roedd hyn yn clymu i mewn efo'r Awdit, a'r angen i ddod â Chronfeydd y Cyngor i lawr dros amser

(4) Roedd y Pwyllgor Cyllid, yn ei gyfarfod ar yr 16eg o Ragfyr, yn argymell fel a ganlyn:

(1) "Clustnodi £30,000 ar gyfer cronfa wrth gefn benodedig.

(2) O ran y £30,000, gofyn i'r Clerc a'r Dirprwy Glerc drafod efo Cyngor Gwynedd os fyddai modd buddsoddi'r arian yng nghaeau swings y dref, a gofyn am asesiad o ran beth oedd ei angen.
(3) Fel rhan o hyn dylid ystyried cael offer chwarae i blant anabl ym Mharc Coed Helen (fel sydd yn y parc yng Nghaeathro)."

(IV) Y Praesept

(1) Nad oedd y Cyngor Tref wedi cynyddu'r Praesept ers rhai blynyddoedd, ac ar y 21ain o Ragfyr roedd yr arian canlynol yn y banc:

Cyfrif Cyflogau	£7,028.98
Cyfrif Cyfredol	£99,482.83
Cyfrif Argyfwng	£1,355.14
Cyfrif Cynilo	£129,099.21
Cyfanswm	**£236,966.16**

(2) Mai Sylfaen Drethiannol Tref Caernarfon ar gyfer 2021/22 oedd £3,596.36. Gellir gweithio allan y gofynion ar y Dreth Gyngor Band D drwy rannu'r £3,596.36 gyda'r Praesept (wedi bod yn £198,488.70). Os bwriedir hawlio Praesept o £198,488.70 byddai hyn yn golygu cost o £55.19 o Dreth Cyngor Band D (h.y. £198,488.70 / 3,596.36).
(3) Y byddai codi'r Praesept efo'r goblygiadau canlynol:

	Sylfaen Drethiannol	**Praesept**
£55.19	3,596.36	198,488.70
£57.16	3,596.36	205,569.74
£59.14	3,596.36	212,682.88

(4) Bod y canlynol yn ystyriaethau pellach:

- Incwm ychwanegol o godi ffioedd parcio 10%,. Nid oedd sicrwydd o pa bryd oherwydd Covid-19.
- Codi'r tâl am logi ystafelloedd cyfarfod yn Adeilad yr Institiwt o 5% bob blwyddyn, am gyfnod o 5 mlynedd, gan gychwyn ym mlwyddyn ariannol 2020/21
- Trafodaethau i gymryd Parc Coed Helen drosodd.

Penderfynwyd:
(1) Yn sgîl yr holl wybodaeth, gofyn i'r Clerc hysbysu Cyngor Gwynedd na fyddwn yn codi'r Praesept ar gyfer 2021/22, a'i gadw yn £198,488.70.
(2) Y dylid gofyn i'r Clerc baratoi Datganiad i'r Wasg yn nodi nad oedd y Cyngor Tref wedi codi'r Praesept ers rhai blynyddoedd, a bod y Cyngor wedi cyflawni llawer iawn o bethau yn ystod y cyfnod hwnnw.
(3) Dylai'r math o wybodaeth a gyfeirir ato ym mhenderfyniad (2) uchod fod ar gael ar safle We'r Cyngor.

9. Arolwg i bobl hŷn sy'n gofalu am anwyliaid

Cyflwynwyd gwybodaeth am arolwg i bobl hŷn sy'n gofalu am anwyliaid gan Age Cymru ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr.Bydd yr arolwg yn helpu i ddarparu gwell dealltwriaeth o anghenion pobl 50 oed neu hŷn sy'n darparu cymorth di-dâl i deulu neu ffrindiau ond nad ydynt yn manteisio ar unrhyw wasanaethau, gwybodaeth neu gyngor.

Penderfynwyd nodi'r uchod.

10. Strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio: Cymru o blaid pobl hŷn

Cyflwynwyd gwybodaeth ar yr ymgynghoriad uchod, sy'n cau ar y 15fed o Fawrth 2021.

Penderfynwyd:

(1) Nodi'r uchod.

(2) Defnyddio safle We'r Cyngor i fod yn broactif yn y math yma o beth a chymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

11. Cyfle am Rewgell Cymunedol

Gofynnwyd am gefnogaeth y Cyngor i gais ar gyfer Rhewgell Gymunedol a wnaethpwyd gan Circular Economy Wales. Cyflwynwyd copi o'r bid a'r gwaith papur cysylltiedig.

Nodwyd fod peth dyblygu yma efo cais roedd y Cyngor Tref wedi ei wneud o ran y Grant Cronfa Gylchol Adferiad Gwyrdd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais ar gyfer Rhewgell Gymunedol a wnaethpwyd gan Circular Economy Wales.

12. Cyfrifon

Nodwyd fod y Cyfrifon canlynol yn cael eu cyflwyno erbyn y 31ain o Ionawr 2021:

- Adeilad yr Institiwt.
- Cronfa'r Maer.

13. Galwch Acw

Yn sgîl penderfyniad y Cyngor Llawn i beidio â chyfrannu tuag at y gwres na'r drws ffrynt yn Galwch Acw (oherwydd termau'r brydles), derbyniwyd cais gan Galwch Acw yn rhoi'r achos o ran derbyn cyfraniad. Mae cwot o £2,149 & TAW wedi ei dderbyn ar gyfer sustem wresogi.

Penderfynwyd peidio â thrafod y cais, gan nad oedd 6 mis wedi bod ers penderfyniad gwreiddiol y Cyngor i wrthod (unfrydol).

14. Cwestiynau

Dim.

Gorffennodd y cyfarfod am 7.20 p.m.

Arwyddwyd .....

Dyddiad .....